

## **Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council**

**Cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd am 7.30yh Nos Fawrth 15/2/2022 drwy Zoom.**

**Minutes of the Full Council meeting held at 7.30pm Tuesday 15/2/2022 by Zoom.**

Yn Bresennol/Present: Enid Jones, Vic Ensor, Elfed Jones, Carys Davies, Lowri Jones, Brian Potter, Dei Owens, Dafydd Williams, Keith Fitton, Cyng/Cllr Aled Morris Jones

Wrth Law/In attendance: Carli Evans Thau (Clerc/Clerk), Mike Whitlam

Ymddiheuriadau/Apologies: Derek Owen

### **1 Croeso/Welcome**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Carys Davies a bu croesawu pawb yn bresennol.  
*Carys Davies chaired the meeting and welcomed all present.*

### **2 Datgan Diddordeb/Declaration of Interest**

Enid Jones – cynllunio/planning – fferm area haul/solar farm

### **3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf/Minutes of the Last Meeting**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, cynnig Brian Potter, eilio Elfed Jones  
*Minutes of the meeting were approved, proposed Brian Potter, seconded Elfed Jones.*

### **4 Materion yn Codi o'r Cofnodion/Matters Arising from the Minutes**

4.1 Cytuno i'r clerc drefnu cyfarfod i'r pwyllgor parciau a mannau agored i gael ymweld a gwahanol safleoedd a thrafod eitemau penodol e.e. bwrdd gwybodaeth cyn adrodd yno i'r Cyngor Llawn.

*Agreed that the clerk arrange a meeting of the parks and open spaces committee to visit different sites and discuss specific items e.g. information board before reporting to Full Council.*

### **5 Diweddariadau/Updates**

5.1 Cyllid a Personel/*Finance and Personnel*

Cafwyd grynodedb o'r cyfarfod diwethaf gan Carys Davies. Cafwyd wybod bod materion cofrestrfa tir yn symud yn eu blaen. Bu cymeradwyo nifer o daliadau a chadarnhau ac aroddiad misol yn un ol a'r arfer.

Derbyniwyd gais am gefnogaeth gan bapur bro Yr Arwydd, nid yw'r Cyngor wedi cefnogi yn y gorffennol oherwydd bod cyfraniad yn cael ei wneud tuag at gostau Llais Cemaes. Wedi trafodaeth cytuno cyfrannu £100, y clerc i ofyn am gopi o'u cyfrifon diweddaraf er gwybodaeth. Daw cais hefyd a gwahoddiad gan Hosbis Dewi Sant i fynychu cyfarfod y Cyngor i roi diweddariad o'u gweithgareddau yng Nghaergybi. Bu cytuno eu gwadd i gyfarfod nesaf y Cyngor.

Bu tynnu sylw at nifer o faterion iechyd a diogelwch. Cadarnhawyd mai'r busnesau sydd yn gyfrifol am y braced baneri ar eu hadeiladau. Bydd Elfed Jones yn cadarnhau rhestr o fusnesau a'r clerc yn ysgrifennu atynt i gadarnhau'r sefyllfa.

Bu tynnu sylw at bryderon am lecyn parcio penodol ym maes parcio'r traeth. Cytuno byddai aelodau yn ymweld ac adrodd yn ol i'r clerc cyn gynted a phosib. Bu Keith Fitton dynnu sylw at nifer o faterion iechyd a diogelwch oedd yn gyfrifoldebau CSYM. Gofynnwyd iddo anfon manylion pellach at y clerc i'w anfon ymlaen i'r swyddogion perthnasol a'r cynghorwyr sirol.

Deallwyd bod CSYM wedi cadarnhau bod y gwaith i'r forglawdd ar y gweill a bod disgwyl mwy o wybodaeth gan wneuthurwr y lampiau cyn i'r golau stryd fu ddisgyn cyn y Nadolig gael ei ail-osod.

Cafwyd ddiweddariad am 10/12 Stryd Fawr, y clerc i gysylltu a Dafydd Hardy i'w hatgoffa bod angen i'r tenantiaid newydd gael cysylltiad lleol. Mae disgwyl mwy o brisiau am y gwaith i gefn yr adeilad.

Ni fu diweddariad gan CSYM am gytundeb ar gyfer prosiect Nant y Scrwngi – mae disgwyl ymateb ganddynt cyn trafod ymhellach.

Trafodwyd yr angen i adolygu cynllun iaith y Cyngor a sicrhau bod gwasanaeth cfieithu ar gael yng nghyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol – y clerch i wneud ymholiadau gyda Medrwn Mon a Menter Mon i weld os oedd cefnogaeth ar gael.

Bu'r pwyllgor gytuno agor cyfrif gyda TN Robinson er wyn arbed arian (tax) ar ddefnyddiau trydannol.

Cadarnhawyd bydd y diffibriwleiddwyr yn cael eu gosod o fewn yr wythnos. Bu diolch i Brian Potter ac Elfed Jones am drefnu'r gwaith.

*Carys Davies summarised the last meeting. It was reported that land registry issues were progressing. A number of payments were approved and the monthly report acknowledged.*

*An application for support has been received from the local community newspaper Yr Arwydd; the Council has not supported this organisation in the past due to supporting Llais Cemaes. After discussion it was agreed to donate £100, the clerk to request a copy of their most recent accounts for information. An application also comes with an invitation from St David's Hospice to attend a Council meeting to provide an update on their activities in Holyhead. It was agreed to invite them to attend the next Council meeting.*

*A number of health and safety issues have been highlighted. It was been confirmed that businesses are responsible for the banner brackets on their premises. Elfed Jones will confirm a list of businesses and the clerk will write to confirm the position.*

*Concerns about a dedicated parking space at the beach car park have been highlighted. Agreed that members would visit and report back to the clerk as soon as possible. Keith Fitton highlighted a number of health and safety issues which were the IACC's responsibilities. He was asked to send further details to the clerk to forward to the relevant officers and county councilors.*

*It was understood that the IACC had confirmed that work to the sea wall was in hand and that further information was expected from the lamp maker before the street light that fell before Christmas was replaced.*

*An update for was 10/12 High Street, the clerk to contact Dafydd Hardy to remind them that the new tenants need to have a local connection. Further quotes are expected for the work to the rear of the building.*

*There was no update from IACC with regard to an agreement for the Nant y Scrwngi project - a response is awaited before any further discussion.*

*The need to review the Council's language scheme and to ensure that a translation service for future meetings was discussed - the clerk to make inquiries with Medrwn Mon and Menter Mon to see if support was available.*

*The committee agreed to open an account with TN Robinson to save money (vat) on electrical materials.*

*It has been confirmed that the defibrillators will be fitted within the week. Brian Potter and Elfed Jones were thanked for coordinating the work.*

## 5.2 Parciau a Mannau Agored/*Parks and Open Spaces*

Nodwyd bydd cyfarfod y pwyllgor yn cael ei drefnu cyn gynted a phosib – aelodau i gysylltu a'r clerch gydag unrhyw eitemau i'w cynnwys ar yr agenda cyn gynted a phosib.

Fel nodwyd uchod, mae disgwyl i CSYM ddod yn ol atom gyda cytundeb ar gyfer prosiect Nant y Sgrwngi gan mai hwy sydd berchen ar 75% o'r tir sydd wedi ei gynnwys yny prosiect. Bydd posib i'r Cyngor Cymuned adlewyrchu anghenion y gytundeb ar dir sydd berchen i'r Cyngor Cymuned er cysondeb.

*It was noted that the committee meeting would be arranged as soon as possible - members to contact the clerk with any items for inclusion on the agenda as soon as possible.*

*As noted above, the IACC is expected to come back to us with an agreement for the Nant y Scrwngi project as they own 75% of the land included in the project. The Community Council will be able to mirror the requirements of the agreement on land owned by the Community Council for consistency.*

### 5.3 Pwyllgor yr Harbwr/Harbour Committee

Cafwyd ddiweddariad gan Brian Potter yn dilyn cyfarfod diweddaraf y pwyllgor. Nodwyd bod angen mynediad i Caffi Bach er mwyn cwblhau gwaith trydannol a gosod diffibriwleiddiwr.

Trafodwyd diffygion system CCTV a phroblemau diweddar, cytuno cynnwys eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf gydag adroddiad ysgrifenedig i drafod ymhellach.

Cytuno i'r clerc gofrestru goleufa jiwibili ar ran y Cyngor. Mae trefniadau eisioes ar y gweill gan y pwyllgor – bydd yr oleufa i'w osod ar ben y pier fel yn y gorffennol.

*Brian Potter gave an update following the committee's most recent meeting. It was noted that access to Caffi Bach is required in order to complete electrical work and install a defibrillator.*

*The shortcomings of the CCTV system and recent problems were discussed, it was agreed to include an agenda item at the next meeting with a written report for further discussion.*

*Agreed that the clerk register a jubilee beacon on behalf of the Council. The committee is already making arrangements - the beacon will be installed at the pier head as in the past.*

### 5.4 Partneriaeth – Port St Mary Partnership

Cafwyd ddiweddariad gan Lowri Jones yn dilyn trafodaethau diweddar. Mae syniadau cychwynnol wedi datblygu erbyn hyn a bydd trafodaethau pellach gyda'r ysgol maes o law. Cadarnhaodd Dafydd Williams bod swyddogion Ynys Manaw yn gefnogol o'r syniadau cyffredinol hyd yma.

*Lowri Jones gave an update following recent discussions. Initial ideas have now been developed and further discussions will take place with the school in due course. Dafydd Williams confirmed that Isle of Man officials are supportive of the general ideas so far.*

### 5.5 Pwyllgorau Allanol/External Meetings

Nodwyd bod nifer o aelodau wedi mynychu sesiwn gan Planning Aid Wales ar ail-gartrefi. Yn dilyn y sesiwn yma, mae cyfarfod Partneriaeth Cyngorau Gogledd Mon wedi ei drefnu er mwyn cytuno ar ymateb ymgynghoriad LLC ar ddeddf ail gartrefi a llety gwyliau. Cadarnhawyd bydd Carys Davies yn mynychu'r cyfarfod. Nodwyd bod dogfen ymateb ddrafft wedi ei gylchredeg i'r aelodau drwy ebost er gwybodaeth a sylw pellach. Bu'r Cyngor gytuno cefnogi'r bartneriaeth a chyflwyno ymateb eu hunain ar sail yr un sylwadau.

*It was noted that a number of members had attended a session by Planning Aid Wales on second homes. Following this session, a North Anglesey Council Partnership meeting has been arranged to agree the response of the WG consultation on the second homes and holiday accommodation legislation. It was confirmed that Carys Davies will be attending the meeting. It was noted that a draft response document had been circulated to members by email for further information and comment. The Council agreed to support the partnership and put forward its own response based on the same comments.*

## 6 Cynllunio/Planning

### 6.1 Ceisiadau/Applications

Cyflwynwyd y ceisiadau cynllunio canlynol i'w hystyried. Cadarnhaodd y clerc bod y manylion wedi'i hanfon at yr holl aelodau cyn y cyfarfod.

*The following planning applications were presented for consideration. The clerk confirmed that the details had been forwarded to all members prior to the meeting.*

- Bronallt (HHP/2022/37) - dim gwrthwynebiad/no objection
- Fferm Arae Haul Porthwen Solar Farm (DIS/2022/10) - dim gwrthwynebiad/no objection
- Wylfa (DEM/2022/2) = dim gwrthwynebiad/no objection

## 6.2 Penderfyniadau CSYM/IACC Decisions

Rhodddwyd gwybod i aelodau am benderfyniadau a ganlyn yr awdurdod cynllunio:

*Members were informed of the planning authority's decisions as follows:*

- 25 Ffordd y Traeth (FPL/2021/322) gwrthod/refused

## 7 Gwaharddiadau Parcio Arfaethiedig / Proposed Parking Restrictions

Cadarnhawyd derbyn mapiau o'r pentref gan y clerc. Gofynnwyd i'r aelodau nodi unrhyw waharddiadau parcio a/neu arwyddion sydd eu hangen yn yr ardal er mwyn cysoni cynllun i'w gyflwyno i CSYM.

Cytuno cynnwys yr eitem ar agenda'r pwyllgor parciau a manau agored er mwyn trafod ymhellach wrth ymweld a safleodd. Cytuno hefyd cynnwys rhestr enwau strydoedd/ arwyddion ar agenda'r cyfarfod. Cytuno hefyd cynnwys croesfan A5025 ar y cynlluniau

*Members confirmed receipt of maps of the village from the clerk. Members were asked to identify any parking restrictions and/or signage required in the area in order to reconcile a plan for submission to IACC.*

*Agreed to include the item on the parks and open spaces committee agenda for further discussion during site visits. Also agreed to include a list of street names/signs on the meeting agenda. Also agree to include A5025 crossing on the plans.*

## 8 Gohebiaeth/Correspondence

### 8.1 Nododd y clerc bod unrhyw ohebiaeth gyffredinol wedi'i hanfon at yr aelodau trwy e-bost wrth iddynt gael eu derbyn.

*The clerk noted that any general correspondence had been sent to members by email as they were received.*

### 8.2 Bu dynnu sylw a chydnabod ebost gan Keith Fitton yn amlinellu nifer o ddigwyddiadau oedd ynghlwm a hwy, a rhestr o faterion teimlai oedd angen sylw. Cafodd ddiweddariad fel a ganlyn –

- Tudalen facebook y Cyngor – nodwyd bod gan y Cyngor wefan, ac nad oedd pawb yn defnyddio facebook
- Piar Bach – mae'r Cyngor wedi cytuno peidio symud ymlaen a'r prosiect. Y Goron sydd berchen ar, ac yn gyfrifol o'r safle.
- Cadarnhawyd bod prosiect Capel Bethlehem yn annibynnol o'r Cyngor Cymuned.
- Capel Bethel – nid yw'r adeilad ar gael hyd yma, mae'r ymddiriedlwyr yn gwybod fod gan y Cyngor ddoddordeb pan ddaw'r amser.
- Baw ci yn gyffredinol – nodwyd bod y Cyngor wedi buddsoddi mewn blychau dosbarthu a bagiau baw ci mewn nifer o safleoedd drwy'r pentref a bod y warden yn ymweld yn fwy aml erbyn hyn.
- Rheolaeth y traeth – nodwyd mai deddf gwlad yw hyn ac nad oedd posib i'r Cyngor cymuned newid rheolau, mae'r Cyngor wedi bod yn pwysu ar CSYM ers peth amser i adolygu a diweddar'r ddeddfwriaethau.
- Caffi Traeth a Sied Gychod – cadarnhawyd bydd Chris Hughes yn gwerthu lluniaeth a tocynnau parcio ym mhen pella'r traeth ar ran y Cyngor cymuned i ddechrau'r haf yma. Cafwyd wybod nad yw'r Charles Henry wedi ei gynnwys ym mhrosiect Capel Bethlehem erbyn hyn a bod angen gweithdy a chartref iddo. Cytuno byddai Dafydd Williams a Keith Fitton yn adrodd yn ol i'r Cyngor wedi cyfarfod nesaf y grwp llywio

*An email from Keith Fitton was highlighted outlining a number of with which he was involved and a list of issues he felt needed to be addressed. He received an update as follows -*

- Council facebook page - it was noted that the Council had a website, and that not everyone used facebook.
- Piar Bach - the Council has agreed not to proceed with the project. The Crown Estate owns and is responsible for the site.

- It was confirmed that the Bethlehem Chapel project is independent of the Community Council.
- Capel Bethel - the building is not yet available, the trustees know that the Council has an interest when the time comes.
- Dog fouling in general - it was noted that the Council had invested in dog fouling bags and dispensers at a number of sites throughout the village and that the warden was visiting more frequently.
- Beach management - it was noted that this is legislation and that the Community Council could not change rules, the Council has been pressing the IACC for some time to review and update the legislation.
- Beach Café and Boat Shed - confirmed that Chris Hughes will be selling refreshments and parking tickets at the far end of the beach on behalf of the Community Council to start this summer. It was reported that Charles Henry is no longer included in the Bethlehem Chapel project and needs a workshop and home. Agreed that Dafydd Williams and Keith Fitton would report back to Council after the next steering group meeting

8.3 Bu'r clerc dynnu sylw at hyfforddiant Un Llais Cymru yn ol yr arfer.  
*The clerk highlighted One Voice Wales training as usual.*

## **9 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting**

Cynhelir y cyfarfod nesaf drwy gynhadledd fideo – 15/3/2022

Bu atogoffa'r aelodau bod angen anfon unrhyw eitem ar gyfer yr agenda i'r clerc oleiaf saith diwrnod cyn y cyfarfod.

*The next meeting will be held by video conference – 15/3/2022*

*Members were reminded that any item for the agenda be forwarded to the clerk at least seven days prior to the meeting.*

Bu'r cyfarfod orffen am 20.50yh / *The meeting closed at 20.50pm*

Carys Davies  
Is-Gadeirydd/Vice Chair  
Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council